LC1118

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005

Mae'r Gorchymyn yma'n dod ag adran 54(1) i (5) ac adran 54A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i rym, sef adrannau sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth sydd wedi'i chael gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ar ei ran a chan bersonau sy'n awdurdodau cyhoeddus neu sy'n gweithredu ar ran awdurdodau cyhoeddus.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae'n arferol bod gorchmynion cychwyn, heblaw'r un cyntaf mewn cyfres o orchmynion, yn cynnwys – ar ôl y Nodyn Esboniadol – Nodyn ynghylch y gorchmynion cychwyn cynharach. Yn ôl Arferion Offerynnau Statudol, os yw'r Gorchymyn yn dod â darpariaethau olaf y Ddeddf i rym, dylid nodi hynny yn y Nodyn Esboniadol ac nid oes angen Nodyn ynghylch gorchmynion cynharach. Ar sail hyn, does dim Nodyn o'r fath wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn hwn. Er hynny, mae'n bosibl y bydd yr aelodau'n teimlo y byddai Nodyn ynghylch gorchmynion cychwyn cynharach o gymorth i'r darllenydd. Os felly,

gan nad yw’r Nodyn yn rhan o’r Gorchymyn ei hun, gall hwn gael ei fewnsosod wrth gyhoeddi’r Gorchymyn.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**5 Gorffennaf 2005**